## ATODLEN 2

Rheoliad 51

### Addasiadau pan roddir cyfarwyddyd diogelwch gwladol

**Dehongli**

**1.** Mae rheoliad 3 i'w ddarllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod yn y lleoedd priodol—

"ystyr "cyfarwyddyd diogelwch" ("*security direction*") yw cyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 321(3) o'r Ddeddf Gynllunio, paragraff 6(6) o Atodlen 3 i'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig neu baragraff 6(6) o'r Atodlen i'r Ddeddf Sylweddau Peryglus,";

"ystyr "cynrychiolydd penodedig" ("*appointed representative"*) yw person a benodir o dan adran 321(5) neu (6) o'r Ddeddf Gynllunio, adrannau 22 a 40 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig a pharagraff 6A o Atodlen 3 iddi, ac adran 21 o'r Ddeddf Sylweddau Peryglus a pharagraff 6A o'r Atodlen iddi,";

"ystyr "tystiolaeth gaeedig" ("*closed evidence*") yw tystiolaeth sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd diogelwch;".

**Arolygu safleoedd**

**2.** Mae rheoliad 8 i'w ddarllen fel pe bai—

(a) ar ddiwedd paragraff (2), "a rhaid iddynt roi'r fath hysbysiad i unrhyw gynrychiolydd penodedig" wedi ei fewnosod;

(b) ar ôl paragraff (2), y canlynol wedi ei fewnosod—

"(2A) Pan fo arolygu safle yn golygu arolygu tystiolaeth gaeedig, caiff Gweinidogion Cymru arolygu'r tir yng nghwmni'r apelydd ac unrhyw gynrychiolydd penodedig."

**Gwybodaeth bellach**

**3.** Mae rheoliad 9 i'w ddarllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (8)—

"(8A) Nid yw paragraff (8) yn gymwys pan fo'r sylwadau a'r ymatebion ysgrifenedig a geir gan Weinidogion Cymru ("sylwadau pellach") yn cynnwys tystiolaeth gaeedig neu'n cyfeirio at dystiolaeth gaeedig.

(7B) Pan fo sylwadau pellach yn cynnwys tystiolaeth gaeedig neu'n cyfeirio at dystiolaeth gaeedig rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl eu cael, anfon y sylwadau pellach at yr apelydd ac unrhyw gynrychiolydd penodedig; a

(b) sicrhau bod y sylwadau pellach (ac eithrio'r dystiolaeth gaeedig) ar gael yn y fath fodd y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl ei fod yn briodol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol."

**Sylwadau**

**4.** Mae rheoliad 22 i'w ddarllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (7)—

"(7A) Nid yw paragraff (7) yn gymwys pan fo'r datganiad achos llawn a geir gan Weinidogion Cymru ("y datganiad achos llawn") yn cynnwys tystiolaeth gaeedig neu'n cyfeirio at dystiolaeth gaeedig.

(7B) Pan fo'r datganiad achos llawn yn cynnwys tystiolaeth gaeedig neu'n cyfeirio at dystiolaeth gaeedig rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei gael, anfon y datganiad achos llawn at yr apelydd ac at unrhyw gynrychiolydd penodedig; a

(b) sicrhau bod y datganiad achos llawn (ac eithrio'r dystiolaeth gaeedig) ar gael yn y fath fodd y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl ei fod yn briodol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol."

**Sylwadau personau â buddiant**

**5.** Mae rheoliad 23 i'w ddarllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (3)—

"(3A) Nid yw paragraff (3) yn gymwys pan fo'r sylwadau a geir gan Weinidogion Cymru oddi wrth bersonau â buddiant ("sylwadau personau â buddiant") yn cynnwys tystiolaeth gaeedig neu'n cyfeirio at dystiolaeth gaeedig.

(3B) Pan fo sylwadau'r personau â buddiant yn cynnwys tystiolaeth gaeedig neu'n cyfeirio at dystiolaeth gaeedig rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl eu cael, anfon sylwadau'r personau â buddiant at yr apelydd ac unrhyw gynrychiolydd penodedig; a

(b) sicrhau bod sylwadau'r personau â buddiant (ac eithrio'r dystiolaeth gaeedig) ar gael yn y fath fodd y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl ei fod yn briodol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol."

**Sylwadau pellach**

**6.** Mae rheoliad 24 i'w ddarllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (4)—

"(4A) Nid yw paragraff (4) yn gymwys pan fo'r sylwadaethau ysgrifenedig a geir gan Weinidogion Cymru ("sylwadaethau ysgrifenedig") yn cynnwys tystiolaeth gaeedig neu'n cyfeirio at dystiolaeth gaeedig.

(4B) Pan fo'r sylwadaethau ysgrifenedig yn cynnwys tystiolaeth gaeedig neu'n cyfeirio at dystiolaeth gaeedig rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl eu cael, anfon y sylwadaethau ysgrifenedig at yr apelydd ac unrhyw gynrychiolydd penodedig; a

(b) sicrhau bod y sylwadaethau ysgrifenedig (ac eithrio'r dystiolaeth gaeedig) ar gael yn y fath fodd y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl ei fod yn briodol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol."

**Penodi asesydd**

**7.** Mae rheoliadau 28 a 37 i'w darllen fel pe bai ", unrhyw gynrychiolydd penodedig" wedi ei fewnosod ar ôl "yr awdurdod cynllunio lleol".

**Dyddiad gwrandawiad ac ymchwiliad, lleoliad gwrandawiad ac ymchwiliad a hysbysiad ynghylch gwrandawiad ac ymchwiliad**

**8.** Mae rheoliadau 29 a 42 i'w darllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (4)(b)—

"(ba) unrhyw gynrychiolydd penodedig;".

**Cymryd rhan mewn gwrandawiad, cymryd rhan mewn ymchwiliad**

**9.** Mae rheoliadau 31(1) a 38(1) i'w darllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-baragraff (b)—

"(ba) unrhyw gynrychiolydd penodedig;".

### Absenoldeb, gohirio etc.

**10.** Mae rheoliadau 32(1) a 39(1) i'w darllen fel pe bai ", unrhyw gynrychiolydd penodedig" wedi ei fewnosod ar ôl "awdurdod cynllunio lleol".

### Y weithdrefn mewn gwrandawiad

**11.** Mae rheoliad 33(5) i'w ddarllen fel pe bai ", unrhyw gynrychiolydd penodedig" wedi ei fewnosod ar ôl "awdurdod cynllunio lleol".

### Cyfarfodydd rhagymchwiliad

**12.** Mae rheoliad 40(2) i'w ddarllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-baragraff (b)—

"(ba) unrhyw gynrychiolydd penodedig;".

### Datganiadau tystiolaeth ysgrifenedig

**13.** Mae rheoliad 44 i'w ddarllen fel pe bai—

(a) ar ôl paragraff (1), y canlynol wedi ei fewnosod—

"(1A) Nid yw paragraff (1) yn gymwys pan fo'r datganiad tystiolaeth ysgrifenedig yn cynnwys tystiolaeth gaeedig neu'n cyfeirio at dystiolaeth gaeedig.

(1B) Pan fo'r datganiad tystiolaeth ysgrifenedig yn cynnwys tystiolaeth gaeedig neu'n cyfeirio at dystiolaeth gaeedig—

(a) rhaid i'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol a phob person a wahoddir i gymryd rhan yn yr ymchwiliad sy'n bwriadu rhoi tystiolaeth, neu'n bwriadu galw person arall i roi tystiolaeth, yn yr ymchwiliad drwy ddarllen datganiad ysgrifenedig, anfon at Weinidogion Cymru—

(i) un copi o'r datganiad ysgrifenedig gan gynnwys y dystiolaeth gaeedig, ynghyd â chrynodeb ysgrifenedig;

(ii) un copi o'r datganiad ysgrifenedig heb gynnwys y dystiolaeth gaeedig ("y datganiad agored"), ynghyd â chrynodeb ysgrifenedig;

(b) rhaid i'r apelydd anfon un copi o'r datganiad agored, ynghyd â chrynodeb ysgrifenedig, i'r awdurdod cynllunio lleol;

(c) rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol anfon un copi o'r datganiad agored, ynghyd â chrynodeb ysgrifenedig, at yr apelydd.";

(b) ar ôl paragraff (2), y canlynol wedi ei fewnosod—

"(2A) Nid yw paragraff (2) yn gymwys pan fo'r datganiad tystiolaeth ysgrifenedig yn cynnwys tystiolaeth gaeedig neu'n cyfeirio at dystiolaeth gaeedig.

(2B) Pan fo'r datganiad tystiolaeth ysgrifenedig yn cynnwys tystiolaeth gaeedig neu'n cyfeirio at dystiolaeth gaeedig rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei gael—

(a) anfon copi o ddatganiad agored pob person a wahoddir i gymryd rhan yn yr ymchwiliad, ynghyd ag unrhyw grynodeb, i'r awdurdod cynllunio lleol; a

(b) anfon copi o bob datganiad agored, ynghyd ag unrhyw grynodeb, at bob person a wahoddir i gymryd rhan yn yr ymchwiliad."

**Y weithdrefn mewn ymchwiliad**

**14.** Mae rheoliad 45 i'w ddarllen fel pe bai—

(a) ym mharagraffau (3), (5) a (6), ", unrhyw gynrychiolydd penodedig" wedi ei fewnosod ar ôl "awdurdod cynllunio lleol";

(b) ar ôl paragraff (12), y canlynol wedi ei fewnosod—

"(12A) Nid yw paragraff (12) yn gymwys os yw unrhyw sylw ysgrifenedig neu unrhyw ddogfen arall a geir gan y person penodedig ("gwybodaeth bellach") yn cynnwys tystiolaeth gaeedig neu'n cyfeirio at dystiolaeth gaeedig.

(12B) Pan fo'r wybodaeth bellach yn cynnwys tystiolaeth gaeedig neu'n cyfeirio at dystiolaeth gaeedig, rhaid i'r person penodedig—

(a) datgelu'r wybodaeth bellach i'r apelydd ac unrhyw gynrychiolydd penodedig;

(b) datgelu'r wybodaeth bellach (ac eithrio'r dystiolaeth gaeedig) i'r awdurdod cynllunio lleol a phob person sy'n cymryd rhan yn yr ymchwiliad."

**Y weithdrefn ar ôl sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiadau, ymchwiliadau neu achosion cyfunol.**

**15.** Mae rheoliad 47 i'w ddarllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (4)—

"(4A) Nid yw paragraff (4) yn gymwys pan ystyriwyd tystiolaeth gaeedig.

(4B) Pan ystyriwyd tystiolaeth gaeedig—

(a) rhaid i'r person penodedig a'r asesydd, pan fo un wedi ei benodi, nodi mewn rhan ar wahân ("y rhan gaeedig") o'u hadroddiadau unrhyw ddisgrifiad o'r dystiolaeth honno ynghyd ag unrhyw gasgliadau neu argymhellion mewn perthynas â'r dystiolaeth honno; a

(b) pan fo asesydd wedi ei benodi, rhaid i'r person penodedig atodi'r rhan gaeedig o adroddiad yr asesydd i'r rhan gaeedig o adroddiad y person penodedig a rhaid iddo ddatgan yn y rhan gaeedig o'r adroddiad hwnnw i ba raddau y mae'n cytuno neu'n anghytuno â'r rhan gaeedig o adroddiad yr asesydd a, phan fo'n anghytuno â'r asesydd, y rhesymau dros yr anghytuno hwnnw."

**16.** Mae rheoliad 48 i'w ddarllen fel pe bai—

(a) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (4)—

"(4A) Nid yw paragraff (4) yn gymwys pan ystyriwyd tystiolaeth gaeedig.

(4B) Pan ystyriwyd tystiolaeth gaeedig—

(a) rhaid i'r person penodedig a'r asesydd, pan fo un wedi ei benodi, nodi mewn rhan ar wahân ("y rhan gaeedig") o'u hadroddiadau unrhyw ddisgrifiad o'r dystiolaeth honno ynghyd ag unrhyw gasgliadau neu argymhellion mewn perthynas â'r dystiolaeth honno; a

(b) pan fo asesydd wedi ei benodi, rhaid i'r person penodedig atodi'r rhan gaeedig o adroddiad yr asesydd i'r rhan gaeedig o adroddiad y person penodedig a rhaid iddo ddatgan yn y rhan gaeedig o'r adroddiad hwnnw i ba raddau y mae'n cytuno neu'n anghytuno â'r rhan gaeedig o adroddiad yr asesydd a, phan fo'n anghytuno â'r asesydd, y rhesymau dros yr anghytuno hwnnw.";

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ôl paragraff (9)—

"(9A) Nid yw paragraff (9) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn anghytuno â'r person penodedig ynghylch unrhyw fater o ffaith a grybwyllir mewn casgliad a gyrhaeddir

gan y person penodedig mewn perthynas â mater y rhoddwyd tystiolaeth gaeedig mewn cysylltiad ag ef, neu yr ymddengys iddynt hwy ei fod yn berthnasol i gasgliad o'r fath.

(9B) Pan fo Gweinidogion Cymru yn anghytuno â'r person penodedig ynghylch unrhyw fater o ffaith a grybwyllir mewn casgliad a gyrhaeddir gan y person penodedig mewn perthynas â mater y rhoddwyd tystiolaeth gaeedig mewn cysylltiad ag ef, neu yr ymddengys iddynt hwy ei fod yn berthnasol i gasgliad o'r fath, rhaid iddynt gynnwys rhesymau Gweinidogion Cymru dros anghytuno oni bai—

(a) bod yr hysbysiad wedi ei gyfeirio at berson nad yw'n gynrychiolydd penodedig nac yn unrhyw berson a bennir yn y cyfarwyddyd diogelwch, neu'n unrhyw berson o ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd diogelwch; a

(b) y byddai cynnwys y rhesymau yn datgelu unrhyw ran o'r dystiolaeth gaeedig."

**Hysbysiad ynghylch penderfyniad**

**17.** Mae rheoliad 49 i'w ddarllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff (1), "Yn ddarostyngedig i baragraff (1A)" wedi ei fewnosod cyn "Rhaid i Weinidogion Cymru,";

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (1)—

"(1A) Pan fo rhesymau Gweinidogion Cymru dros benderfyniad yn ymwneud â materion y rhoddwyd tystiolaeth gaeedig mewn cysylltiad â hwy, nid oes dim ym mharagraff (1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ynghylch y rhesymau hynny i unrhyw berson ac eithrio—

(a) y cynrychiolydd penodedig; neu

(b) person a bennir yn y cyfarwyddyd diogelwch, neu berson o unrhyw ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd diogelwch.";

(c) ym mharagraff (2), "Yn ddarostyngedig i baragraff (3A)" wedi ei fewnosod cyn "Pan na fo copi";

(d) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (3)—

"(3A) Nid oes dim ym mharagraffau (2) neu (3) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu neu weld y rhan gaeedig o adroddiad y person penodedig, neu unrhyw ddogfennau sy'n ffurfio neu'n cynnwys tystiolaeth gaeedig a atodir i adroddiad y person penodedig, i unrhyw berson ac eithrio—

(a) y cynrychiolydd penodedig; neu

(b) person a bennir yn y cyfarwyddyd diogelwch, neu berson o unrhyw ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd diogelwch."

**Y weithdrefn yn dilyn diddymu penderfyniad**

**18.** Mae rheoliad 50(1) i'w ddarllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-baragraff (a)—

"(aa) nid yw is-baragraff (a) yn gymwys pan fo'r materion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a) yn golygu ystyried tystiolaeth gaeedig;

(ab) pan fo'r materion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a) yn golygu ystyried tystiolaeth gaeedig, ni fydd Gweinidogion Cymru ond yn anfon y datganiad ysgrifenedig at—

(i) y cynrychiolydd penodedig; neu

(ii) person a bennir yn y cyfarwyddyd diogelwch, neu berson o unrhyw ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd diogelwch;".

**Peidio â datgelu tystiolaeth gaeedig**

**19.** Mae'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl rheoliad 51—

"**51A.** Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn i'w gymryd fel pe bai'n ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu, neu'n caniatáu datgelu, tystiolaeth gaeedig i unrhyw berson ac eithrio—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) y person penodedig; neu

(c) person a bennir yn y cyfarwyddyd diogelwch, neu berson o unrhyw ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd diogelwch."